Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# DYDD GŴYL SANT TEILO

## 2026 PECYN MYNYCHU



www.farmgarden.org.uk

Llun: Coeden Sant Teilo, Cymuned Landeleau

# DYDD GŴYL SANT TEILO

## 9fed Chwefror

**Mae afalau yn fwy na dim ond danteithion blasus yn ein perllannau; maent yn rhyfeddodau cyfriniol sy'n llawn straeon a mythau. O straeon cysegredig Gardd Eden i sagas epig chwedlau Groeg a Llychlyn, a chan weu drwy lên gwerin, ffilm a chelf, hyd at y bentagram perffaith yng nghalon yr afal.**

Mae mythau hefyd yn ddi-ri am Sant Teilo, y dywedir iddo gael ei eni ym Mhenalun, Sir Benfro, ac iddo fod yn ffrind (neu'n gefnder) i Dewi Sant. Yn ôl llawysgrifau canol oesol*, teithiodd y ddau gyda Sant Padarn i Balesteina i gael eu hordeinio. Rywbryd ar ôl iddynt ddychwelyd, fe drawodd y pla, a ffodd Teilo i Lydaw i aros gyda ffrind arall, Sant Samson.

Mae'r llawysgrifau hefyd yn adrodd am Sant Teilo a ffynhonnell sanctaidd yn Llydaw, ac iddo ef—sy'n berthnasol i berllannau—'blannu llwyn mawr ar gyfer perllan ffrwythau, tua thair milltir o hyd' gyda Sant Samson. Mae Landeleau yn Llydaw (sy'n debyg i'n rhagddodiad Cymraeg 'Llan' – eglwys neu ddiffod – lle mae 'Lan' yn golygu 'lle sydd wedi'i gysegru i sant') yn enwi 'Saint-Theleau' (Sant Teilo) fel sylfaenydd y blwyf, yn debyg i Landeilo Fawr yn Llandeilo.

Felly, y 9fed o Chwefror hwn, dathlwch Sant Teilo a'i waith plannu llwyni - plannwch goeden, cynhaliwch ddiwrnod gwaith, a pharatowch y coed hynny a'ch llwyni eich hunain ar gyfer y cynhaeaf toreithiog sydd i ddod yn yr hydref.

**Oddi wrth yr holl dîm yn FGC**

- Vita Sancti Teliaui (Liber Landavensis & Vespasian A. xiv)

Mae **Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol** yn elusen ledled y DU gyda dros 3,000 o aelodau, sy'n cefnogi cymunedau i ffermio, garddio a thyfu gyda'i gilydd.

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# EICH DIGWYDDIAD DYDD GŴYL SANT TEILO

**Mae hwn yn ddiwrnod gwych i blannu yn eich perllan neu dim ond i ddathlu myth a llên gwerin.**

Chi sy'n adnabod eich safle a'ch cymuned orau, felly chi sydd i benderfynu ar y math o ddigwyddiad rydych chi'n ei gynnal. Dyma rai cwestiynau a allai helpu eich grŵp i benderfynu sut olwg fyddai arno.

**1. Sut rydych chi am ddathlu Sant Teilo?**

- Dod â phobl newydd i'ch perllan?
- Plannu coed newydd?
- Diwrnod gwaith gwirfoddol i docio?
- Chwedleua yn y berllan?

**2. Cynllunio'r hanfodion**

- Amseroedd dechrau a gorffen y digwyddiad ac unrhyw weithdai?
- Pwy sydd ar dîm eich digwyddiad?
- A fyddwch chi'n gwahodd unrhyw grwpiau partner i fod yno?
- Sut byddwch chi'n hyrwyddo'ch digwyddiad?



Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Image: Martin Crampin (ed.), Stained Glass in Wales Catalogue, University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, Aberystwyth, 2022. https://catalogue.stainedglass.walesobject/4177

# CYNLLUNIO'CH DIWRNOD

**Gall cynllunio digwyddiad fod yn dasg frawychus, ond mae paratoi da yn gwneud byd o wahaniaeth i sicrhau bod pethau'n mynd yn esmwyth ar y diwrnod mawr.**

Rydym yn gwybod bod llawer i feddwl amdano, felly rydym wedi crynhoi rhai o'r meysydd allweddol isod. Mae grŵp Facebook ein haelodau hefyd yn lle gwych i gael cyngor.

**1. Marchnata eich Digwyddiad**

- Cynlluniwch pwy rydych chi am eu gwahodd a sut y gallwch chi estyn allan atynt.
- Beth sydd angen iddynt ei wybod?
- Defnyddiwch ein templedi posteri a chyfryngau cymdeithasol.
- Defnyddiwch ein templed datganiad i'r wasg i'w anfon at eich cysylltiadau cyfryngau lleol. Peidiwch ag anghofio gorsafoedd radio lleol hefyd!
- Byddwch yn glir am beth y gall pobl ei ddisgwyl ar y diwrnod.

**2. Rheoli Risg**

- Defnyddiwch ein templed asesu risg (yn Gymraeg, yn Saesneg) i nodi a chynllunio ar gyfer rheoli risg ar y diwrnod.
- Gwiriwch eich yswiriant cyn y digwyddiad i sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn eich polisi.
- Beth am y tywydd? Sicrhewch fod gennych gynllun wrth gefn yn barod rhag ofn y bydd tywydd gwael a phenderfynwch sut y byddwch yn rheoli niferoedd mewn unrhyw fannau caeedig.



**3. Cynhyrchu Incwm**

- Os ydych chi'n gofyn am roddion ar y diwrnod, sicrhewch fod unrhyw gynwysyddion wedi'u labelu'n glir ac yn ddiogel.
- Os ydych chi'n mynd i dderbyn taliadau cerdyn neu roddion ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru gyda darparwr ymhell ymlaen llaw.
- Mae gwerthu planhigion a chynnyrch yn ffordd wych o gynhyrchu arian ychwanegol. Edrychwch ar y canllaw i werthu cynnyrch yma, a meddyliwch sut y byddwch yn derbyn taliad.
- Os mai dim ond arian parod rydych chi'n ei dderbyn, gwnewch yn siŵr bod hyn yn glir yn eich holl farchnata fel bod pobl yn gwybod i ddod ag ef!

**4. Paratoi'r Safle**

- Cynhelwch sesiwn tacluso fawr! Gweithiwch fel tîm i gael eich gofod yn edrych yn ddi-fai, gan baratoi a threfnu unrhyw fannau i'w defnyddio y diwrnod cynt lle bynnag y bo modd.
- Meddyliwch pa arwyddion y gallai fod eu hangen arnoch, a gwnewch y rhain ymlaen llaw. Gall arwyddion wedi'u paentio â llaw edrych yn hyfryd ac yn lliwgar, ond cadwch nhw'n syml ac yn glir fel bod pawb yn gallu eu deall.
- Adroddwch hanes eich grŵp gyda lluniau a thoriadau papur newydd wedi'u harddangos ar fwrdd.
- A oes angen unrhyw finiau a phwyntiau ailgylchu ychwanegol arnoch?



# GWEITHGAREDDAU

**Bydd llawer ohonoch wedi cynnal digwyddiadau o'r blaen ac mae gennych syniad clir o'r mathau o weithgareddau yr hoffech eu cynnal, ond os ydych chi'n newydd i ddigwyddiadau perllan gymunedol, neu os hoffech chi ychydig mwy o syniadau, dyma ychydig o awgrymiadau.**

**1. Gweithgareddau a Gemau**

- Sgiliau Perllan: cynigiwch sesiynau tocio neu weithdai impio neu wybodaeth am blannu, gan gysylltu â nawdd Sant Teilo.
- Cystadleuaeth y plisgyn hiraf: digwyddiad cystadleuol dros ben!
- Gemau cyfrif: dyfalwch faint o afalau/canghennau/gefail docio sydd yn y jâr i ennill gwobr.

**2. Addysg a Diwylliant**

- Sant Teilo ac afalau: rhannwch straeon a mythau am Sant Teilo ac afalau.
- Archwilio afalau mewn mytholeg: Genesis, Ercwlff, Eira Wen, William Tell, Jonny Appleseed.
- Gwahodd tyfwyr eraill i werthu cynnyrch a rhannu eu straeon.

**3. Bwyd a Diod**

- Bake-Off Afalau! Her gymunedol am y deisen afalau, y grymbl neu'r gacen orau (a'r stori y tu ôl iddi).
- Blasu Sudd Afal: samplwch amrywiaethau lleol.
- Cyffeithiau: Finegr Seidr Afal, Sudd Afal, sleisys afal wedi'u sychu i'w blasu.



Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

**4. Ffocws Cymunedol**

- Recriwtio gwirfoddolwyr: sicrhewch fod gennych ddigon o wybodaeth am eich perllan a'r tasgau y mae angen eu gwneud gydol y flwyddyn o amgylch y safle.
- Ymgyrch rhoi: gofynnwch am wahanol fathau o afalau fel tâl mynediad i'w defnyddio mewn gweithgareddau.

Am ragor o wybodaeth am y gweithgareddau a enwir uchod, gweler ein dalen adnoddau yma yn Gymraeg, yma yn Saesneg.



# FFOTOGRAFFIAETH

**Mae tynnu lluniau o ansawdd da yn eich digwyddiad yn ffordd wych o gofnodi'r diwrnod, a hefyd yn rhoi adnodd gweledol gwych i chi ei ddefnyddio wrth siarad am eich gwaith a hyrwyddo digwyddiadau yn y dyfodol.**

Mae ffotograffau o bobl adnabyddadwy yn cael eu dosbarthu fel data personol sensitif o dan ganllawiau GDPR ac felly mae angen caniatâd cyn y gallant gael eu storio neu eu defnyddio gan eich sefydliad. Dilynwch yr arweiniad isod i sicrhau y gellir defnyddio'ch lluniau yn gyfreithiol.

**Defnyddiwch Bosteri a Sticeri**

Os ydych chi'n mynd i dynnu unrhyw luniau, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi ein poster ffotograffiaeth digwyddiadau i fyny mewn lleoliadau amlwg a gweladwy, a hefyd yn rhoi gwybod i bobl ar lafar bod ffotograffiaeth yn digwydd. Bydd pecyn o sticeri plaen yn caniatáu ichi nodi'n glir unrhyw un nad yw am i'w lun gael ei dynnu.

**Gofynnwch am Ganiatâd**

Gofynnwch i bobl cyn i chi dynnu eu llun. Os yw rhwystrau iaith neu sefyllfa arall yn golygu nad ydych chi'n siŵr a yw nhw neu eu hoedolyn cyfrifol sy'n cydsynio yn hapus, peidiwch â thynnu'r llun.

**Storio a Rhannu'n Ddiogel**

Storiwch luniau mewn lleoliad diogel, ochr yn ochr â chopi o'r poster a ddangoswyd. Os byddwch yn anfon unrhyw rai o'ch lluniau atom ni, defnyddiwch ein ffurflen caniatâd ffotograffiaeth i gadarnhau eu bod wedi'u tynnu yn unol â'r arweiniad hwn.



Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# AR ÔL Y DIGWYDDIAD

**Gall digwyddiadau deimlo fel petaent yn digwydd mewn trobwll o weithgaredd a gadael eich pen yn troi! Dyma restr wirio o bethau i'w gwneud unwaith y bydd eich digwyddiad dydd Gŵyl Sant Teilo wedi gorffen.**

- Dewch at eich gilydd fel tîm am drafodaeth fer. Beth aeth yn dda? Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- Sicrhewch fod unrhyw arian rydych wedi'i godi yn cael ei gyfrif a'i roi yn y banc cyn gynted â phosibl.
- Os oes gennych unrhyw luniau gwych o'r diwrnod, byddem wrth ein bodd yn eu gweld a'u hychwanegu at ein llyfrgell. Anfonwch nhw at marketing@farmgarden.org.uk ynghyd â'r ffurflen caniatâd ffotograffiaeth.
- Defnyddiwch yr holl hashnodau hyn #StTeilosDay #DyddGŵylSantTeilo #CommunityOrchards #PerllannauCymunedol a thagiwch ni (ein cyfryngau cymdeithasol isod) a gadewch i ni godi stŵr am Sant Teilo!
- Ac yn olaf, ymlaciwch! Llongyfarchwch eich hun ar ddiwrnod ffantastig a chymerwch egwyl haeddiannol. Gobeithiwn eich gweld eto y flwyddyn nesaf.



www.farmgarden.org.uk